Taflen Wybodaeth am Gam-drin Domestig

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prif Egwyddorion

Mae gan Cafcass Cymru rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o gefnogi plant a theuluoedd mewn achosion llys teulu. Rydym yn cynghori'r llysoedd ar y cam gweithredu gorau o ran beth rydyn ni'n ei ystyried sydd orau i blant. Llys sy'n cyfeirio pob achos atom. Mae beth fydd yn llesol i blentyn yn y dyfodol yn ganolog ymhob penderfyniad sy'n cael ei wneud gan Cafcass Cymru. Rydym yn rhan o Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Rydym yn atebol i'r Gweinidog ac i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ystyr cam-drin domestig yw camddefnyddio pŵer a rheolaeth gan un person dros y llall mewn perthynas agos neu deuluol. Gall fod ar ffurf camdriniaeth gorfforol, emosiynol, seicolegol, ariannol neu rywiol, neu gyfuniad o bob un o'r rhain. Mae fel arfer yn batrwm ymddygiad ac yn digwydd ni waeth am ryw, hunaniaeth rhyw, dosbarth, anabledd, statws mewnfudo, ethnigrwydd, daearyddiaeth na chrefydd.

Gall yr ymddygiad hwn fod yn amlwg; gall hefyd fod yn gynnil megis ynysu rhywun neu ei blant yn gymdeithasol.

Byddwch yn darllen y daflen wybodaeth hon gan eich bod chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn ceisio dod i gytundeb ynghylch trefniadau ar gyfer eich plant ac wedi gofyn am gymorth gan y llys. Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n byw mewn cartref lle mae cam-drin domestig yn digwydd yn gwybod amdano.

Gall plant ddioddef problemau tymor byr a hirdymor yn sgil bod yn ddioddefwr neu'n dyst i gam-drin domestig. Er enghraifft, efallai eu bod wedi cael eu hanafu'n gorfforol ond hefyd yn dioddef problemau emosiynol megis mynd yn bryderus neu'n isel, datblygu problemau yn yr ysgol, mynd yn ymosodol neu'n mynd i'w cragen. Rydym yn gwybod y gall fod yn anodd siarad am unrhyw gam-drin domestig rydych yn ei ddioddef neu wedi ei ddioddef. Fodd bynnag, os ydych chi'n dioddef, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl.

Gall dioddefwyr cam-drin domestig sy'n bodloni meini prawf penodol fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol; gallwch gael rhagor o wybodaeth am hyn yma: **www.gov.uk/legal-aid/domestic-abuse-or-violence**

Beth fydd Cafcass Cymru yn ei wneud?

Os byddwn yn cael gwybod bod cam-drin domestig yn berthnasol i'ch achos, neu wedi bod, byddwn yn rhoi gwybod i'r llys er mwyn i'r barnwr wneud penderfyniad o ran eich plant a rhoi blaenoriaeth i'w diogelwch; efallai y byddwn yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol hefyd. Ni fyddwn yn disgwyl i chi eistedd mewn ystafell gyda'r cyflawnwr honedig a gallwch ddod â rhywun gyda chi i'ch cefnogi, ar yr amod bod y llys yn cytuno.

Beth fydd y llys yn ei wneud?

Gall y llys gytuno i chi ddod â rhywun gyda chi i'ch cefnogi yn ystod y gwrandawiadau llys, gallai hyn fod yn rhywun o asiantaeth, yn aelod o'r teulu neu'n ffrind. Mae'n bwysig eich bod yn codi hyn â'r llys cyn gynted â phosibl, er mwyn i'r llys wneud y penderfyniad hwn. Weithiau, efallai bydd un rhiant yn gwneud honiad o gam-drin domestig a bydd y rhiant arall yn gwadu hyn. Yn yr achosion hyn, efallai bydd y llys yn penderfynu cynnal gwrandawiad 'canfod ffeithiau'. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bob rhiant gyflwyno ei ochr ef i'r stori ac yn galluogi'r llys i edrych yn ofalus ar yr holl wybodaeth cyn gwneud penderfyniad. Bydd y penderfyniad hwn yn sylfaen i benderfyniadau diweddarach y llys am drefniadau ar gyfer eich plant. Bydd y llys yn gwneud penderfyniad terfynol o ran eich plant ar sail beth mae'n ei feddwl sydd orau iddyn nhw.

Ble i gael help?

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn: 0808 8010800
— i gael help, cyngor a gwybodaeth.
Llinell gymorth cam-drin domestig 24 awr am ddim i bawb. **info@livefearfreehelpline.wales**

Childline: 08001111
Darparu cefnogaeth a chymorth i blant

Llinell Gymorth yr NSPCC: 0808 8005000
help@nspcc.org.uk
Darparu cefnogaeth a chymorth i blant

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG31367